

❖ OS NAD EDRYCH AR IESU, EDRYCH AR BWY?

Rydym eto eleni wedi cyrraedd tymor yr Adfent, pan yw'r eglwys yn draddodiadol yn dechrau paratoi ar gyfer dathlu geni Iesu, sef dyfodiad Duw yn ddyn. Bydd yr wythnosau nesaf yn rhai prysur, gyda phob math o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal – oedfaon, cyngherddau, partiön, a dathliadau amrywiol. Bydd hefyd lawer o ewyllys da, wrth i bobl gael eu llenwi ag 'ysbryd y 'Dolig'. Bydd yr wythnosau hyn yn gyfle gwych i dystio i Iesu Grist, gan fod y rhan fwyaf o bobl, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn gorfod cydnabod bod a wnelo'r dathlu â Iesu. Mae'n gyfle i ddweud eto nad *peth* ond *person* yw'r Nadolig, nid *traddodiad* ond *bywyd*, nid *hanes* ond *cychwyn newydd*, nid *lle* ond *perthynas*.

Craidd Cristnogaeth yw'r sylweddoliad na ddaeth Iesu Grist i wneud cyfraniad at ryw storws fawr grefyddol, ond yn hytrach bod Duw yn Iesu Grist 'yn cymodi'r byd ag ef ei hun' (2 Corinthiaid 5:19). A'r alwad i ddynolryw eleni, fel pob blwyddyn, yw 'cymoder chwi â Duw' (2 Corinthiaid 5:20).

Cafodd y cyfriniwr (*mystic*) o India, Sadhu Sundar Singh, ei fagu ar aelwyd Sikh, ond yn ei ardegau daeth i adnabod Iesu Grist fel Gwardwr ac Arglwydd. Ymhen amser, daeth yn bregethwr teithiol grymus iawn, gan fyw yn syml a thystio i allu Iesu fel y 'ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd' (Ioan 14:6) – yr unig ffordd, yr unig wirionedd a'r unig fywyd.

Un diwrnod, wrth i Sundar Singh ymweld â Choleg Hindwâidd, gofynnodd un o'r athrawon iddo, 'Beth wyt ti wedi ei ddarganfod mewn Cristnogaeth nad oedd yn dy hen grefydd di?'

'Dwi wedi darganfod Crist,' meddai Sundar.

'Dwi'n deall hynny,' meddai'r athro, 'ond beth yn union sydd gen ti rŵan nad oedd gen ti cynt?'

Atebodd Sundar Singh, 'Yr union beth sydd gen i rŵan nad oedd gen i cynt ydy Crist.'

I'r Cristion, nid un ymhlith llawer ydy Iesu Grist. Nid un arweinydd ymhlith llawer. Nid sylfaenu Cristnogaeth wnaeth Iesu – Efyw'r sylfaen. Nid y Cristion cyntaf ydoedd, ond yn hytrach Efyw Cristnogaeth. Nid oes neb tebyg Iddo; nid oes yr un a fedr gystadlu ag Ef; nid oes ganddo ragflaenydd nac olynnydd. Mae William Williams, Pantycelyn, yn egluro hyn trwy ddweud:

Ymhlith holl ryfeddodau'r nef
hwn yw y mwyaf un –
gweld yr anfeidrol, ddwyfol Fod
yn gwisgo natur dyn.

Ac mae awdur y Llythyr at yr Hebraeid yn dweud wrthym am 'gadw ein golwg ar Iesu, awdur a pherffeithydd ffydd' (Hebraeid 12:2). Dyma sialens 'Dolig eleni i ni fel aelodau – 'edrych ar Iesu'.

W. Bryn Williams